

Uned 002 – Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad

Trosolwg o Uned 002

Yn Uned 002, gwnaethom ymchwilio i **gyfnodau datblygiad plant** o 0-19 mlwydd oed, gan archwilio sut mae gwahanol ffactorau, gan gynnwys **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** a **dynameg teuluol** yn effeithio ar iechyd a datblygiad. Gwnaethom archwilio **ymlyniad**, **gwydnwch**, **hunan-barch**, a **natur gyfannol** datblygiad trwy weithgareddau a chwarae.

Yn ogystal, roedd yr uned hefyd yn cynnwys arsylwi a chofnodi cynnydd datblygiadol, pwysigrwydd cynhwysiant ac agweddau gofal ymarferol fel maeth, a gweinyddu meddyginiaethau, i gyd o fewn cyd-destun strwythurau teuluol amrywiol a gweithio mewn partneriaeth.

DD1: Deall ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, lles, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

- A allaf **adnabod** y gwahanol **gyfnodau datblygiad plant** o 0-19 oed?
- Ydw i'n deall yr **ystod o ffactorau** sy'n gallu effeithio ar iechyd, lles a datblygiad plentyn?
- A allaf egluro sut y gallai **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** effeithio ar iechyd, llesiant a dysgu plentyn?
- Ydw i'n gwybod beth mae '**ymlyniad**' yn ei olygu a pham mae **gwydnwch** yn bwysig i ddatblygiad plentyn?
- Ydw i'n gallu disgrifio sut mae **hunaniaeth** a **hunan-barch** yn hanfodol ar gyfer llesiant plentyn, a beth yw eu hanghenion hanfodol ar gyfer datblygiad?
- Ydw i'n deall rolau **gwahanol asiantaethau** mewn **cynnal plant** a'r cysylltiad rhwng twf **deallusol**, **corfforol** ac **emosiynol**?
- Ydw i'n gallu rhestru sut mae gwahanol **feysydd cwricwlwm** yn cefnogi **datblygiad cyfannol** plentyn a phwysigrwydd **cymryd rhan** mewn weithgareddau?
- Ydw i'n gwybod sut mae **arferion bob dydd** a **gweithgareddau sy'n briodol yn ddatblygiadol** yn helpu datblygiad plentyn?
- Ydw i'n gallu egluro pwysigrwydd **datblygiad creadigol** a sut mae **profiadau dysgu** yn cyfrannu at dwf plentyn?..
- Ydw i'n deall sut mae **strwythurau teuluol** ac **ymyrraeth gynnar** yn effeithio ar bersbectif a llesiant plentyn?
- Ydw i'n gallu adnabod arwyddocâd **perthnasoedd** a **rhwydweithiau cefnogi** wrth gefnogi llesiant plentyn?
- Ydw i'n gwybod pam mae **arsylwi**, **monitro** a **chofnodi** datblygiad plentyn yn **bwysig**, a pha **fframweithiau** sy'n cael eu defnyddio at y diben hwn?



Uned 002 – Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad

Trosolwg o Uned 002

Yn Uned 002, gwnaethom ymchwilio i **gyfnodau datblygiad plant** o 0-19 mlwydd oed, gan archwilio sut mae gwahanol ffactorau, gan gynnwys **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** a **dynameg teuluol** yn effeithio ar iechyd a datblygiad. Gwnaethom archwilio **ymlyniad, gwydnwch, hunan-barch, a natur gyfannol** datblygiad trwy weithgareddau a chwarae.

Yn ogystal, roedd yr uned hefyd yn cynnwys arsylwi a chofnodi cynnydd datblygiadol, pwysigrwydd cynhwysiant ac agweddau gofal ymarferol fel maeth, a gweinyddu meddyginiaethau, i gyd o fewn cyd-destun strwythurau teuluol amrywiol a gweithio mewn partneriaeth.

DD2: Gwybod gwerth trefnu a defnyddio amgylcheddau i gefnogi iechyd, lles, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

- Ydw i'n gallu rhestru'r **gofynion rheoleiddio** ar gyfer **amgylcheddau** mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a disgrifio beth sy'n gwneud amgylchedd yn **gadarnhaol** i blant?
- Ydw i'n gwybod sut i greu **amgylchedd** sy'n **cefnogi datblygiad cyfannol** ac sy'n cyd-fynd â **fframweithiau'r cwricwlwm**?
- Ydw i'n gallu egluro sut i wneud yr **amgylchedd yn gynhwysol** i bob plentyn, gan gynnwys y rhai ag **anghenion ychwanegol**, a sicrhau ei fod yn **groesawgar**, yn **meithrin**, yn **ddiogel**, yn **lân** ac yn llawn **ysgogiad**?
- Ydw i'n deall pwysigrwydd **cydbwysu gweithgarwch corfforol** gyda **gorffwys** ac **amser tawel**, a phwysigrwydd **arferion cyson** ar gyfer llesiant a datblygiad plant?

DD3: Deall rôl chwarae wrth gefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant.

- A allaf esbonio'r '**egwyddorion gwaith chwarae**' a'u pwysigrwydd i **iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad** plant?
- Ydw i'n deall rôl **chwarae** i blentyn ddeall ei hun ac ydw i'n gallu **adnabod** gwahanol fathau o chwarae a'u **manteision**?
- Sut ydw i'n defnyddio'r **amgylchedd, y cyfarpar a'r deunyddiau** i gefnogi chwarae a hwyluso **datblygiad cyfannol**?
- A allaf ddisgrifio sut mae **chwarae'n** helpu plant i **ddysgu amdanynt eu hunain, am eraill a'u hamgylchedd**, a sut mae'n cael ei ddefnyddio i fynegi **emosiynau** ac **ymddygiad**?
- Ydw i'n gwybod sut i **gynnwys plant** wrth greu **mannau chwarae** a phenderfynu a yw'r manau hyn yn **ysgogol, yn herio, yn dawel** neu'n **ymlaciol**?
- Ydw i'n gallu cydbwysu **pwysigrwydd risg** mewn chwarae â sicrhau **diogelwch** plant a **manteision datblygiadol**?



Uned 002 – Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad

Trosolwg o Uned 002

Yn Uned 002, gwnaethom ymchwilio i **gyfnodau datblygiad plant** o 0-19 mlwydd oed, gan archwilio sut mae gwahanol ffactorau, gan gynnwys **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** a **dynameg teuluol** yn effeithio ar iechyd a datblygiad. Gwnaethom archwilio **ymlyniad, gwydnwch, hunan-barch, a natur gyfannol** datblygiad trwy weithgareddau a chwarae.

Yn ogystal, roedd yr uned hefyd yn cynnwys arsylwi a chofnodi cynnydd datblygiadol, pwysigrwydd cynhwysiant ac agweddau gofal ymarferol fel maeth, a gweinyddu meddyginiaethau, i gyd o fewn cyd-destun strwythurau teuluol amrywiol a gweithio mewn partneriaeth.

DD4: Gwybod sut i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

- Ydw i'n deall pwysigrwydd **lleferydd, iaith a chyfathrebu** ar gyfer **llesiant, dysgu a datblygiad** plant?
- Ydw i'n gallu egluro **effaith anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu** ar ddatblygiad plant a **phwysigrwydd ymyrraeth gynnar**?
- Ydw i'n gwybod sut mae **timau aml-asiantaethol** yn cydweithio i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu?
- Ydw i'n gallu nodi'r ffyrdd y mae oedolion yn **hyrwyddo lleferydd, iaith a datblygiad cyfathrebu** plant, yn enwedig trwy **chwarae a gweithgareddau**?

DD5: Gwybod sut i gefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant ag anghenion cymorth ychwanegol.

- Ydw i'n deall y **fframweithiau cyfreithiol** o ran **gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol** ac ydw i'n gallu adnabod y **gwahanol fathau** o anghenion?
- Ydw i'n gallu egluro sut y gallaf **gefnogi plant mwy abl a thalentog**, a sut y gallaf gael gwybod am **anghenion cymorth ychwanegol penodol** plant unigol?
- Ydw i'n gwybod beth yw egwyddorion **cynhwysiant** ar gyfer plant ag **anghenion ychwanegol** a sut i **addasu gweithgareddau** i gynnwys **pob** plentyn?

DD6: Gwybod sut i gefnogi plant gyda'u gofal corfforol.

- Ydw i'n deall **pwysigrwydd cefnogi arferion gofal corfforol** i blant a sut mae'r arferion hyn yn cyfrannu at eu llesiant?
- Ydw i'n gallu egluro sut i drin plant ag **urddas a pharch** yn eu harferion gofal corfforol, gan ystyried eu **cefndir, eu diwylliant a'u crefydd**?
- Sut ydw i'n sicrhau bod **arferion gofal corfforol** yn cael eu cynnal yn ddiogel, gan ddiogelu'r plentyn a'r oedolion dan sylw, a lle gallaf **gael gafael ar wybodaeth ychwanegol** am hyn?

Uned 002 – Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad

Trosolwg o Uned 002

Yn Uned 002, gwnaethom ymchwilio i **gyfnodau datblygiad plant** o 0-19 mlwydd oed, gan archwilio sut mae gwahanol ffactorau, gan gynnwys **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** a **dynameg teuluol** yn effeithio ar iechyd a datblygiad. Gwnaethom archwilio **ymlyniad, gwydnwch, hunan-barch, a natur gyfannol** datblygiad trwy weithgareddau a chwarae.

Yn ogystal, roedd yr uned hefyd yn cynnwys arsylwi a chofnodi cynnydd datblygiadol, pwysigrwydd cynhwysiant ac agweddau gofal ymarferol fel maeth, a gweinyddu meddyginiaethau, i gyd o fewn cyd-destun strwythurau teuluol amrywiol a gweithio mewn partneriaeth.

DD7: Deall pwysigrwydd maeth a hydradu ar gyfer iechyd a llesiant plant.

- A allaf ddiffinio 'maeth' a 'hydradu' ac egluro eu **pwysigrwydd** ar gyfer iechyd plant?
- Ydw i'n deall **egwyddorion deiet cytbwys a hydradu da** i blant, gan gynnwys **argymhellion y llywodraeth**?
- Ydw i'n ymwybodol o **fentrau cenedlaethol a lleol** sy'n cefnogi **maeth a hydradu** plant?
- Ydw i'n gwybod sut i **annog plant** i wneud **dewisiadau bwyd a diod iach**, a pha **ffactorau** allai **ddylanwadu** ar eu maeth a'u hydradu?

DD8: Deall y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rhoi meddyginiaeth a'i storio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant.

- Ydw i'n deall y **ddeddfwriaeth** a'r **canllawiau** ynglŷn â **rhoi a storio meddyginiaeth** mewn lleoliadau gofal plant?
- Ydw i'n gallu rhestru **rolau a chyfrifoldebau** staff sy'n ymwneud â **thrin meddyginiaeth** yn y lleoliadau hyn?
- Ydw i'n cydnabod sut mae **rhoi meddyginiaeth mewn modd amhriodol** yn ymwneud â **phryderon diogelu**?
- A allaf egluro **pwysigrwydd cofnodi gwybodaeth** yn gywir am drefn weinyddol rhoi meddyginiaethau?

